# LLYGAD BARCUD

CYLCHLYTHYR

## CYMDEITHAS TED BREEZE JONES

RHIF 10 – GWANWYN 2007



# BYWYD GWYLLT PATAGONIA



***HEFYD YN Y RHIFYN HWN –***

- MWY AR Y DRYW BACH
- ARWYR ANGHOFIEDIG
- AIL RAN HANES JOHN LAWTON ROBERTS

***A LLAWER, LLAWER MWY!***

## *ER BUDD ADAR A BYD NATUR*

# Golygyddol


Yn gyntaf mae'n rhaid i mi ymddiheuro am hwyroldeb y rhifyn hwn (sylwch mod i wedi newid y teitl o rifyn y 'Pasg' i rifyn y 'Gwanwyn' gan fod y Pasg wedi hen ddod a mynd erbyn hyn!). Efallai y bydd yr erthygl ar fy mhrofiadau o fywyd gwyllt Patagonia ddiwedd Chwefror a Mawrth yn ddigon o gliw i chi pam!

Bu'r tywydd braf yn ystod y mis dwytha yn fendith i lawer (tywydd da ar gyfer wyna) ond cwyno mae eraill am y sychder anhymhorol – 'Ebrill sych, popeth a nych' ynde?. Ac wrth gwrs, mae'n siwr i'r amryw danau gwyllt effeithio ar nifer o adar wrth iddynt feddwl am ddechrau nythu, neu wedi gwneud o bosib.

Clywais rai'n dweud fod y gwyntoedd anghyffredin wedi cadw rhai o'r adar mudol draw yn hwyrach eleni. 'Dwn i'm os oes unrhyw goel yn hyn, ond erbyn hyn mae'r mewnlifiad heibio'i anterth – mae'r gwenoliaid (bondo, glennydd a chyffredin) yma, tinwennod y garn, siff-saff, teloriaid – ac erbyn hyn yn ôl nifer o sylwebyddion ar Galwad cynnar mae'r gôg yn ei hol hefyd ('dwi ddim wedi'i chlywed hyd yma, ond am nad oes gen i fawr o arian ar ôl yn fy mhoced wedi'r daith i Batagonia, da o beth hynny efallai!) Ac wrth gwrs daeth y gweilch yn ôl i Bont Croesor. Mae 3 wy yn y nyth erbyn hyn – gobeithio y gallwn roi crynodeb o'r tymor yn rhifyn Awst i chi. Cofiwch fod angen gwirfoddolwyr yma unwaith eto eleni – i weithio yn y ganolfan wylio a hefyd i warchod y nyth dros nos.

Ydy, mae tymor y gwylio adar wedi dechrau o ddifri felly! Bydd nifer ohonoch yn ailafael yn y sgwariau BBS o bosib, eraill yn cymryd rhan mewn arolygon o'r rugiar ddu. Eleni, mae gen i dri sgwar yn arolwg y BTO o'r cwtiad torchog ar ein glannau – rwy'n edrych ymlaen at hwn. Efallai mai dim ond mynd allan yn achlysurol i fwynhau y byddwch – os felly, pam ddim ddod ar un o deithiau'r Gymdeithas? Mae na ambell un ar ôl yn rhaglen eleni – beth am ddod draw i goedydd Brondanw, neu i Nant Gwrtheyrn? Mae'r rhestr llawn i'w weld ar y dudalen gefn.

Sut bynnag – a lle bynnag – y byddwch yn mynd i wylio adar dros yr haf, mwynhewch. Gobeithio y bydd rhifyn Awst Llygad Barcud allan ar ei amser arferol!



## LLYGAD BARCUD - Cylchlythyr Cymdeithas Ted Breeze Jones

**Rhif 10 – Gwanwyn 2007**

**Golygyddion –**
Rhodri Dafydd (CCGC) a Twm Elias (PTyB)

**Cyfranwyr –**
Twm Elias, Brian Jones, John L Roberts, Dewi Lewis, Rhodri Dafydd



Pob llun – hawlfraint yr awdur oni nodir yn wahanol.



**CYMDEITHAS TED BREEZE JONES**
**Llywydd Anrhydeddus –**
Iolo Williams

**Cadeirydd y Gymdeithas a Golygydd Ymgynghorol *Llygad Barcud*–**
Twm Elias, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Gwynedd LL41 3YU, (01766) 772 610

**Trysorydd –**
Brian Paul, Ty Fry, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6RT, (01766) 770 500

**Ysgrifennydd a Golygydd *Llygad Barcud*–**
Rhodri Dafydd, 2 Ty'n Ddôl, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7TN, (01678) 540 545

**Ysgrifennydd Aelodaeth –**
Anwen Breeze Jones, Tan y Deri, Bryn Eithin, Llandecwyn, Gwynedd LL47 6YF, (01766) 770 833


Am fwy o wybodaeth a ffurflen ymaelodi â'r Gymdeithas cysylltwch âg Anwen Breeze Jones.

**Croesawir llythyrau, cwestiynau, newyddion ac ati ar gyfer y rhifyn nesaf.**
**Anfoner unrhyw ddeunydd at yr Ysgrifennydd cyn diwedd Mehefin os gwelwch yn dda**

## Manteision ymaelodi â Chymdeithas Ted Breeze Jones.

Bob blwyddyn bydd aelodau'r Gymdeithas yn derbyn tri rhifyn o'r cylchlythyr ***Llygad Barcud***. Cyn hir, byddwch fel aelodau yn derbyn cerdyn aelodaeth fydd yn eich galluogi i fynychu sgyrsiau a theithiau'r gymdeithas yn ddi-dâl. Ond un o fanteision mawr aelodaeth o'r Gymdeithas yw y bydd y cerdyn hwn yn caniatáu i chi gael gostyngiadau sylweddol o'r siopau isod –

- **Cotswold Outdoor**, Betws y Coed – 15%
- **Gelert**, Port – 15% ar nwyddau Gelert, 10% ar nwyddau eraill
- **Siop lyfrau Browsers**, Port – 10%
- **Fifth Element**, Port – 10%
- **Bear Print**, Port – 10%
- **Nigel Hughes**, Port – 10% (ar wahan i gamerau digidol – prisiau cystadleuol eisoes!)
- **Arwyn Edwards**, Penrhyndeudraeth – 10% ar wydrau a nwyddau eraill

# Ted fy Athro

gan John Lawton Roberts

(...parhad o erthygl yn rhifyn 9 ***Llygad Barcud***)

**Dros y blynyddoedd nesa bu Ted a minnau yn ymweld a llawer o lefydd ac yn tynnu lluniau llawer o wahanol fathau o adar. Dyma ichi flas o'r hyn a ddigwyddai:**


Fis Gorffennaf 1967, a minnau newydd gyrraedd adre i Riwabon o'r coleg, daeth galwad ffôn: "Mae gen i ddylluan wen yn Llyn, wyt ti ishio dwad?". Doedd dim angen iddo ofyn eilwaith, oherwydd, yn ogystal â'r fran goesgoch, y gigfran a'r hebog tramor, y dylluan wen oedd un o'r adar yr oeddwn yn dyheu ei chael o flaen fy nghamera.

Y pnawn hwnnw, felly, dyma roi'r gêr camera ar biliwn fy sgwter a stwffio pwlofer, sanau, pyjamas a chwdyn cysgu i'r sach gefn, a ffwrdd a fi am Bronant. Wrth lyw ei fan 'mini', wrth inni deithio, y rhoddodd Ted gyfarwyddiadau imi am arferion yr aderyn a '*tips*' am pryd i 'danio' ayyb.

Yn Efailnewydd daethom o hyd i'r adfail y bwthyn bach lle roedd y nyth i'w gael. Roedd yn union fel yr oeddwn wedi freuddwydio amdano ac am mai dyma'r tro cynta imi gael cyfle i dynnu lluniau'r ddylluan wen roeddwn yn bur gynhyrfus.

Wedi mynd i mewn roedd mwy fyth o ryfeddodau. Roedd ysdol i ddringo i'r groglofft. "Watsha lle ti'n rhoi dy draed yn fanna" meddai Ted, "Jyst 'ista ar y sedd 'na am 'bach – dydy'r lle 'ma ddim yn ryw sâff iawn". Ond roedd y lle'n rhy wych i boeni'n ormodol am rhyw fanion fel diogelwch y llawr a 'ballu, dim ond cymeryd gofal a defnyddio synwyr cyffredin ynde?

Roedd y cywion ar silff y simdde yn edrych arnom. A dyna wnaethon nhw, yn ddioglyd, tra buom yn gosod y gêr – y camera a'r fflachiadau – ac yna eu testio fwy nag unwaith (ffocysu, gosod yr agoriad, setio'r 'shutter', testio'r fflachiadau, ail osod y 'shutter', symyd y sgrîn ffocysu o'r ffordd a thynnu'r sleid dywyll). Roedd Ted yn eithriadol o drylwyr yn ei baratoadau.



Yna cefais aros yno ar ben fy hun. Roedd y cwbwl ddigwyddodd wedyn yn union fel y dywedodd Ted yn y fan ar y ffordd yma. 9.15 – y wenoliaid fel larwm y tu allan; yna swn sgriffo gwinedd ar y to; y cywion yn edrych i fyny (finnau'n rhewi) ac yn galw fel petaent yn chwyrnu'n uchel gan gynnyddu i gresiendo. Yna nofiodd y dylluan i mewn yn ddistaw – fel ysbryd mawr gwyn. Cynnwrf enbyd ar y nyth; y dylluan yn troi tuag ataf – minnau'n tanio – a'r fflach yn fy nallu'n llwyr! Eiliadau wedyn, wrth i'm golwg ddechrau dod yn ôl, gweld bod yr aderyn yn dal i edrych tuag ataf ac yna'n hedfan allan ar adenydd distaw.

Fe ddychwelodd bump gwaith cyn hanner nos.

Yn sydyn fe'm dychrynwyd gan lais Ted!: "Sut aeth hi?".


"Gwych! Bendigedig!" meddwn innau. Fe gariais y llun o'r ddylluan yn fy meddwl am hir ac roeddwn yn ail-fyw'r profiad fisoedd wedyn.

Yn 1972 aethom i Fair Isle efo'n gilydd. Ynys fechan yw hon, hanner ffordd rhwng Shetland ag Orkney. Ted drefnodd bopeth ac ar ran ola'r siwrnai, ar y gwch, fe welais ei unig wendid – roedd o'n sâl môr. Druan ohono, yn anhwylus iawn, ac yn ceisio cysgu ar dorch o raff ar y dec, gan hidio dim am gael ei wlychu gan drochion y tonnau oedd yn torri dros ymyl y gwch nawr ac yn y man.

Buom yn aros ym moethusrwydd (cymharol) y Wylfan Adar a mynd allan bob dydd i dynnu lluniau adar y môr ar glogwyni a gweundiroedd yr ynys. Roeddwn newydd gael camera newydd: Hasselblad - lux, un yr oedd ei bris yn ddigon i sicrhau y byddwn yn ofalus iawn ohono ac yn sicr ddim yn anghofio lle y'i gadewais!

Cawsom gryn hwyl yn closio at y palod a hefyd yr adar drycin y graig oedd yn nythu yma. Un digwyddiad doniol: roeddwn yn tynnu llun aderyn drycin pan benderfynodd hwnnw amddiffyn ei hun drwy chwydu olew gwyn ffiaidd o'i stumog dros fy 'wellingtons' i. Mae'r stwff yma'n erchyll o ddrewllyd, a dydy' o ddim yn golchi i ffwrdd yn hawdd iawn chwaith.

Roedd Ted ar ben y clogwyn yn gwylio'r cyfan ac yn chwerthin yn braf ar fy mhen i. Ei dro ef oedd nesa i dynnu lluniau ac felly i lawr a fo, yn llawn hyder, gan feddwl bod y deryn wedi s'bydu ei olew ac y gallasai ef osgoi'r un trafferth a gefais i. Roedd o'n dal i chwerthin pan ddaeth o fewn cyrraedd i'r nyth ac, yn wir i chi, chafodd o ddim trafferth efo'r deryn hwnnw. Ond yn ddiarwybod i Ted roedd yna gyw yn llechu ar y silff nesa i fyny ac fe benderfynodd hwnnw y byddai cap y ffotograffydd yn gwneud ymarfer targed penigamp. Ha! Ha! – fi gafodd yr hwyl rwan!



Byddai gan Ted lygad dda am stori bob amser, a byddai'n tynnu rhai sleidiau yn benodol ar gyfer darlithio. Roedd yn awyddus i gael llun o ymosodiad ffyrnig pâr o sgiwenod arnaf pan aethom yn rhy agos i'w nyth. Rhaid i mi gofio gwisgo rhywbeth i amddiffyn fy mhen os ca'i fy hun fyth mewn sefyllfa debyg eto!



Llun arall – a minnau yn ei gymeryd ar ei ran y tro hwn – o Ted yn yr ystafell fodrwyo adar yn y Wylfan yn eistedd o flaen yr offer pwyso.

Yr unig daith adaryddol i mi ei threfnu oedd i waith carthffosiaeth ger Wisbech yn East Anglia, oedd yn un o'r llefydd gorau yn y wlad am rydyddion. Roedd hi'n siwrnai hir ac ar ôl cyrraedd fe gymerodd Ted un golwg ar y llecyn campio yr oeddwn wedi ei ddewis – ar glawdd pridd llydan rhwng dau wely carth – a phenderfynnu ar y dafarn agosa!

Dyma gyrraedd tafarn yn Wisbech a churro'r drws, ond doedd dim ateb. "Be am fynd i mewn?" A dyma Ted yn agor y drws a cherdded i mewn "Oes 'na rywun yma?" Ond yn sydyn dyma swn cyfarth erchyll a dau gi Alsatian anferth yn hyrddio tuag atom a dyn gwynepgoch y tu ôl iddyn nhw yn ceisio'u hatal!

*"What the...?"* meddai'r dyn – tra bo'r cwn yn coethi a sgyrnygu'n ffyrnig.

Troiodd Ted a dweud "Croeso i ddwyrain Lloegr!" ac allan a ni. Aethom i gysgu yn y fan y noson honno. Yn y bore gwelais fantais aros mewn gwely a brecwast oherwydd yn y badell ffrïo a adawyd yn anfwriadol oddiallan dros nos roedd olion traed llygod mawr yn y saim.

Eto fyth bu'r gwylio adar yn llwyddiannus iawn a chawsom luniau o ddau aderyn prin iawn – pibydd Teminck a phibydd y gors. Doedd Ted dim yn gyfarwydd â nhw, a dywedodd: "Os na fedra'i dd'eud be ydyn nhw fe fedra'i dd'eud wrtha ti be ydyn nhw ddim." Roedd yn amlwg wedi hen arfer hefo cwestiynau anodd ar Seiat Byd Natur!

Adre yn Rhiwabon, wedi imi ymadael â'r ysgol fach breswyl yn Rhyd, Llanfrothen, fe ddechreuais dynnu lluniau o ddifri. Roeddwn o hyd yn edrych ymlaen i groesawu Ted ac yn falch o ddangos fy nhguddfannau iddo. Ar ei ymweliad cyntaf, yn 1966, fe aethom at yr afon Dyfrdwy lle roedd glas y dorlan yn nythu. Ond doedd hi ddim yn hawdd tynnu lluniau ohonynt am eu bod yn hedfan o bellter yn syth i mewn ag allan o'r twll nythu dan y dorlan. Bu Ted yn astudio'r sefyllfa am sbel cyn mynd i chwilio am gangen a'i gosod yn ofalus ar linell ehediad yr adar, mewn lle oedd hefyd yn gyfleus i ninnau dynnu lluniau. Ac, fel y disgwyliai, fe ddaeth yr adar i ddefnyddio'r glwydfan newydd yn ddi-drafferth. Canfyddodd lecyn clwydo arall ynghanol llwyn ar y dorlan a gosodwyd ail guddfan i'w gwylio o ongl wahanol, gysgodol.




Dro arall llwyddwyd i dynnu lluniau telor penddu. Doedd yr adar hyn ddim yn gyffredin yn ardal Blaenau bryd hynny ond roeddent yn weddol niferus yn y gogledd ddwyrain. Mae'r telor penddu yn amheus iawn o guddfannau fel arfer, ond cawsom un oedd yn eitha parod i gydweithredu, chwarae teg iddo.

Roedd y tiroedd amaethyddol o gwmpas Rhiwabon yn dda iawn am y ddylluan fach hefyd. Eto, chydig iawn o'r rhain oedd yn ardal Ted. Mae'n nythu yn agos i'r ddaear fel arfer, mewn boncyff yn aml iawn, ac yn cario chwilod, pryfed go fawr, lindys ac, ar dywydd gwlyb, pryfed genwair i'r cywion. Weithiau fe ddaliai aderyn bach, ond welwyd yr un llygoden ganddi. Y broblem fwya efo'r ddylluan fach oedd ddim cymaint os y byddai'n clwdo am ychydig cyn mynd i'r nyth (fel y gwna glas y dorlan) ond ymhle? I gael llun da roedd raid iddi sefyll o fewn dwy fodfedd i'r pwynt ffocysu neu fe fyddai'n anneglur. Roedd cael llun iawn yn dipyn o gamp am y byddai'n dod at y nyth wrth iddi dywyllu, oedd yn golygu bod raid ffocysu o flaen llaw. Pe na glaniai yn y lle iawn fe fyddai'n anodd wedyn i ail-ffocysu.

Roedd y rhostir cyfagos yn gyfoethog iawn o ran adar yn y 1970au (llawer llai erbyn hyn): gyda poblogaeth dda o'r gwalch bach...a'r cipar lleol yn hapus i gydweithredu. Cawsom iar oedd yn weddol ddof. Deuai ffotograffydd o Lerpwl i ddefnyddio'r guddfan weithiau ac ar un achlysur fe ddaeth ag ychydig ffrindiau i fodrwyo brain coesgoch oedd hefyd i'w cael yn yr ardal. Roedd Ted yn casau tynnu lluniau o frain coesgoch oedd wedi eu modrwyo ac un tro, pan adawais ef yn y guddfan ar ben ei hun a dychwelyd ymhen rhyw ddwyawr,– fe welais fod y modrwyau wedi eu hagor a'u gosod yn gylch taclus o gwmpas y nyth! "*Sorry, lad*", meddai, "ond fedswn i'm o'u diodda nhw ar ôl sbel!" Fe ail-osodais y modrwyau wedi inni orffen tynnu lluniau.

Yr un dydd cawsom gwtiad aur ar y rhostir agored gerllaw ac yna cyw gôg mewn nyth llwyd y gwrych. Doedd hi ddim yn bosib cael llun da o'r llwyd y gwrych yn bwydo'r cyw gôg am y deuai'r deryn bach i'r nyth o gefn y llwyn, oedd yn golygu ei fod yn cael ei guddio gan gorff y cyw. Ond buan y cafodd Ted drefn ar bethau drwy osod sgrïn fechan o ddail yr ochor honno o'r nyth gan orfodi'r deryn i ddod at y cyw o'r ochr – oedd yn rhoi'r ongl berffaith i dynnu llun.

Fy narganfyddiad gorau oedd deryn y buom yn son amdano ers inni gyfarfod gynta yn 1963, sef y cyffylog. Bum yn chwilio am nyth ers 4 mlynedd – yn gwylio'r ceiliogod yn arddangos gyda'r gwyll, ond heb glem lle roedd yr ieir. Anod iawn oedd gwybod hynny mewn coedlan go fawr efo afon oedd yn amhosib ei chroesi yn llifo drwy'i chanol. Lwc yn unig ddatgelodd lle'r oedd. Roeddwn yn tynnu lluniau bronwen y dwr o guddfan pan glywais swn yn y dail marw, a dyna lle'r oedd y ceiliog cyffylog yn dilyn ymyl yr afon yn bwydo'n gyflym. Dyma fo'n hedfan ar draws a setlo yn y dail ac aros yno. Awr yn ddiweddarach fe godais innau a symyd i'w gyfeiriad. Yn sydyn cododd yr iar, ryw lathen o'm blaen. Roedd nyth yno efo pedwar wy!



Bron imi redeg at fy sgwter i fynd adre i ffonio Ted. Ei sylw ef oedd bod y cyffylog yn eithriadol o nerfus felly byddai raid cymeryd gofal mawr i osod cuddfan a bod angen ei chuddio'n iawn. Felly dyma roi weiren netin drosti a phlethu brigau celyn drwyddi. Y trafferth

oedd ceisio'i symud – a minnau wedi anghofio dwad â menyg lledr i arbed fy hun rhag yr holl gelyn! Roedd yn werth y drafferth oherwydd fe fihafiodd y cyffylog yn wych inni ac fe gawsom luniau a gyhoeddwyd mewn sawl llyfr a chylchgrawn.

Fe gymerodd nyth y troellwr mawr dair mlynedd i'w ganfod. Roeddwn wedi gweld yr iar ar seiliau hen wal ac wedi darllen y gallasai hyn fod yn arwydd mai yno y byddai'n nythu y flwyddyn wedyn. A wir i chi, y flwyddyn ganlynnol (1973) roedd yr iar yno ar wyau. Galw Ted i ddod draw ac aeth i'r guddfan i dynnu lluniau. Ymhen sbelan rhoddodd yr arwydd ei fod wedi gorffen – sef hances yn chwifio o gefn y guddfan. Pan ddaeth allan dywedodd: "*OK lad*, 'dwi 'di cael be 'dwi ishio rwan". Roeddwn wedi rhyfeddu pan dywedodd ei fod am ddychwelyd adre, ac felly bu. Daethum i amau fod ganddo ryw 'dderyn' arall ar ei feddwl!?

Yn 1974 fe gollasom gysylltiad am sbel. Fe briododd Ted ag Anwen; fe symudais innau dramor am bedair blynedd a phan ddychwelais priodi, creu cartref a chael swydd. Treuliais fy amser rhydd yn gwneud ymchwil a chynnal arolygon adaryddol ar fynydd Rhiwabon a thipyn o dynnu lluniau hefyd. Dyma achos o ddisgybl yn gadael ei athro i droedio'r byd mawr a dilyn ei drywydd ei hun. Sylweddolais wedyn, mai dyma fel yr oedd Ted wedi ei fwriadu. Â'r un oedd y stori efo sawl un arall y bu'n fentor iddynt, hogia fel Emyr Roberts, Gareth Parry ayyb y bu imi eu cyfarfod ym Mronant neu y clywais Ted yn son amdanynt.

Roedd gan Ted nid yn unig ei fywyd (priodasol) ond dwy swydd – un oedd ei waith fel athro a'r llall oedd ei genhadaeth (gaiff ei dathlu gan y Gymdeithas sy'n dwyn ei enw) dros adar a bywyd gwyllt; a thros Gymru a'r iaith Gymraeg. Roedd yn ganol y 1990au cyn i ni gyfarfod a threulio amser iawn gyda'n gilydd yn hel atgofion am 'ddyddiau Bronant' a'n hynt a'n helynt ers hynny. Oedd, roedd Ted yn wr eithriadol ac rwy'n ddiolchgar am y fraint o fod wedi ei nabod.

**Nythu Mewn Blwch Llwch!**



Gobeithio nad ydy titws bach yn cael eu heffeithio gan fwg ail-law! Gosodwyd y blwch llwch uchod y tu allan i swyddfa ym Mhentwyn, Caerdydd yn barod ar gyfer y gwaharddiad ar smygu y tu fewn i adeiladau ddaeth i rym ddechrau Ebrill eleni.

Druan o'r smygwyr - yn methu cael lle i smygu tu mewn a, rwan, nunlle i roi'r llwch chwaith!

**Os oes gennych chi enghreifftiau o adar yn nythu mewn llefydd od, gadewch i'r Golygydd wybod. Llun fyddai orau, neu, os nad oes un, fe wnaiff disgrifiad yn iawn. Cyhoeddir y canlyniadau yn y rhifyn nesa.**

## Llythyr at y Golygydd

6 Parc Kingrosia
Clydach
Abertawe

Annwyl Olygydd,

Parthed erthygl Rhodri Dafydd yn ***Llygad Barcud*** (Rhifyn 9). Yn ogystal a'r enwau sydd yn cyfeirio at y dryw fel 'brenin' deuthum ar draws y canlynol

Gwlad Groeg – ***Basilikos*** – Brenin bach

Yr Eidal – ***Reatino*** – Brenin bach
***Re di siepe*** – Brenin y gwrych
***Re di maccia*** – Brenin y drysni

Ffrainc – ***Roitolet*** – Brenin bach
***Roi de oiseaux*** – Brenin yr adar
***Roi de froidure*** – Brenin y tywydd oer
***Roi de guile*** – Brenin bywiog

Sweden – ***Kungs fogel*** – Aderyn y Brenin

Denmarc – ***Elle konge*** – Brenin y gwerni
***Fugle konge*** – Aderyn y Brenin

Yr Almaen – ***Dorn könig*** – Brenin y drain.

Fel y cyfeiriodd Rhodri yn ei erthygl "....(y) dryw bach yw'r aderyn mwyaf niferus ym Mhrydain". Hyn, siwr o fod, sydd i gyfrif am yr holl amrywiaeth a geir yn yr enwau "lleol" arno. Dyma restr o enwau o'r Alban a Lloegr y deuthum ar eu traws:

Birttie, Bobbie Wren, Bobby Wren, Brown Wren, Chitty, Chitty Wren, Crackadee, Cracket, Crackeys, Crackil, Creeper, Cuddley Wren, Cuddy, Cut, Cutly, Cutty, Cutty Wren, Cutteley Wren, Dicky Pug, Giller Wren, Gilliver Wren, God's Almighty Hen, Guradnam, Jenner Hen, Jilliver Wren, Jenny, Jenny Cruddle, Jinnie, Jinny Pug, Jinty, Jimpo, Jitty, Joey Cutty, Juggy, Juggy Wren, Julliver Wren, Katy Wren, Kitty, Kitty Wren, Kitty-me Wren, Leafy Wren, Our Lady's Wren, Peggy, Puffy Wren, Puggy Wren, Ran, Robbie Cuddie, Runt, Sally, Sally Wren, Scut, Scutty, Skiddy, Stag, Stenkie, Stinkie, Stumpit, Stumpy, Stumpy Dick (!), Stumpy Toddy, Tiddly Wren, Tidley, Tidley Creeper, Tintie, Tit o Wren, Titereen, Titmeg, Titty Dodger (!), Titty Todger (!!), Titty Wren, Tomtit, Tope, Tricker, Two Fingers (!), Vraun, Winter Wren, Wrannock, Wranny, Wirran.

A'r enwau Cymraeg: Dryw (ei enw safonol), Dryw bach, Chwynnwr, Powlin bach, Polwyn bach (Bangor), Pompen, Baran.

Diolch i Rhodri am dynnu ein sylw at dderyn bach ond mawr ei argraff ar ein hanes a'n chwedloniaeth.

Cofion,

**Dewi Lewis.**

**Ceir yma flas bach o'r hyn sydd gan Dewi i'w gynnig yn ei lyfr campus 'Mwy o Enwau Adar' – gyhoeddwyd gan Gwasg Carreg Gwalch (2006), sydd gael nawr am £4.95 o bob siop lyfrau Cymraeg. Mae hwn yn ychwanegiad angenrheidiol i silff lyfrau pob naturiaethwr. GOL.**


# Arwyr anghofiedig

Twm Elias

[Darlledwyd y sgwrs hon ar y rhaglen boblogaidd **Galwad Cynnar**, Radio Cymru, fore Sadwrn, Mawrth 31ain, 2007]

**Methu d'allt ydw i pam nad ydy' rhai o arwyr byd natur Cymraeg Cymru ddim yn cael eu cydnabod yn briodol gan y 'Sefydliad' llenyddol, hunan-apwyntiedig, Cymreig.**

Be bigodd y grachen yma oedd erthygl yn rhifyn haf 2006 o'r cylchgrawn adaryddol gwych hwnnw, *Llygad Barcud*, gaiff ei gyhoeddi gan Gymdeithas Ted Breeze Jones. Ynddo mae Dafydd Guto Ifan yn dathlu canmlwyddiant cyhoeddi *Adar ein Gwlad* gan John Ashton. Mae'r gyfrol hon, gyhoeddwyd yn 1906, ac sydd yn brin erbyn hyn yn glasur – yn llawn gwybodaeth am tua 250 o wahanol fathau o adar.


Adar ein Gwlad

YN CYNNWYS DOSBARTHIAD A DYSGRIFIAD BYR O

HOLL ADAR PRYDAIN

YNG NGHYD A

NODIADAU RHAGARWEINIOL

GAN

JOHN ASHTON.

Caerfyrddin:
W. SPURRELL A'I FAB.

Dyma be mae o'n dd'eud am y barcud coch – sy'n dangos pa mor agos y daethom ni i'w golli o'n gyfangwbwl ddechrau'r 20fed ganrif:


*'Gwna tir-feddianwyr a naturiaethwyr Ystradffin eu goreu i'w cadw rhag eu llwyr ddifetha, a llwyddodd dau bâr o'r adar llynedd (1905) i nythu a magu eu cywion, y tro cyntaf yn ystod y ddeng mlynedd ddiwethaf'.*

Wel, dyma fynd i chwilio am fwy o hanes John Ashton – yn y llefydd y b'ysach chi'n disgw'l cael gwybodaeth o'r fath – sef yn y *Bywgraffiadur Cymreig* a'r *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*. A be gefais i? Wel, dim yw dim.

Troi wedyn, o ran diawlineb, i chwilio am hanes naturiaethwr arall – gwr enwog iawn yn ei ddydd y tro yma – sef Richard Morgan (1854 - 1939), oedd yn wreiddiol o Dalybont, Ceredigion ac yn athro yn Lanarmon yn Iâl. Roedd o'n awdur toreithiog iawn – wedi ennill sawl gwaith am ysgrifau i'r Steddfod Genedlaethol, yn erthyglwr brwd i *Gymru Coch*, OM Edwards ac yn awdur llyfrau ribidirês, ar ddechrau'r 20fed ganrif, e.e. 3 cyfrol *Tro Trwy'r Wig*; 3 *Llyfr Adar*; 3 cyfrol *Llyfr Blodau* a *Rhamant y Gôg Lwydlas*. Fe aeth y rhain i sawl argraffiad dros y blynyddoedd – yn ddefnyddiol iawn yn yr ysgolion ac yn llawn o iaith arbenig o

flodeuog. Fe gafodd radd M.A., er anrhydedd, gan Brifysgol Cymru yn 1922 am ei gyfraniad i lenyddiaeth Gymraeg. A be gewch chi amdano? Wel' rhyw bwt bychan yn y *Bywgraffiadur*, ond DIM yn y *Cydymaith*.

Hm...!





Troi wedyn at gyfnod mwy diweddar – i chwylio am hanes TG Walker, yr athro a'r awdur disglair iawn o Fodorgan yn yr hen Sir Fôn. Roedd o'n ysbrydolwr mawr – ddysgodd genedlaethau o blant Môn, ganol y ganrif dd'wytha, i werthfawrogi a pharchu byd natur. Fo hefyd berswadiodd y ffotograffydd Ted Breeze Jones i ddechrau tynnu lluniau o adar a byd natur. Fe gyhoeddodd Walker amryw o gyfrolau, ar ddefnydd ysgolion yn bennaf – llyfrau fel *Ar Faes a Morlan* (1950); *Trysorau'r Traeth* (eto yn 1950) ac *Adar y Glannau* (1954). Roedd o'n ddarlledwr radio adnabyddus ac fe aeth ei golofn natur o yn Yr Herald am flynyddoedd maith ac yn hynod o boblogaidd. Troi i'r *Bywgraffiadur* – dim! Troi i'r *Cydymaith* – dim!

Ac yn ola, be am Ted Breeze – a'n gadawodd ni, gyda llaw, 10 mlynedd yn ôl i eleni. Roedd o'n awdur dros 30 o gyfrolau (byd natur yn bennaf), dros 550 o erthyglau i wahanol gylchgronnau, yn ffotograffydd o fri ac yn aelod o banel radio Seiat Byd Natur am dros chwarter canrif.

Ond, chwara' teg, dydy'r argraffiadau diweddara o'r *Bywgraffiadur* (sy' ddim 'di pasio'r 1970au eto) na'r *Cydymaith* chwaith (1997 oedd yr argraffiad diweddara ohono fo) wedi cyrraedd y cyfnod diweddar 'ma eto.

Ond, ma 'na le, yn ben-dant, i gydnabod pobl sy' wedi cyfrannu cymaint – er nad ydyn nhw'n lenorion 'pur' fel 'tae. Mae'n hen bryd, yn fy marn i, inni godi'n pennau uwchlaw'r rhigol celfyddydol, cyffyrddus, sy' wedi cyfyngu'n gorwelion ni cyhyd. Ydy, mae sgwennu am fyd natur a gwyddoniaeth a b'allu yn lenyddiaeth y'chi.



**Blas ar fywyd gwyllt Patagonia**

- hanes un dyn bach a'i amser byr mewn gwlad fawr!

Rhodri Dafydd

**Roedd yna dri rheswm dros fy nhaith hirddisgwyliedig i Batagonia. Yn gyntaf, roeddwn am gyfarfod teulu pell, disgynyddion i frawd fy hen hen nain, Margaret Roberts - sef Robert Roberts, a ymfudodd o Lanuwchllyn i Batagonia ym 1882. Bob tro y clywn yr enw Patagonia deuai'r gwr hwn i'r meddwl, y llun ohono ar gefn ei farch tal golygus yn effro yn fy nghof.**

Yn ail, roeddwn wedi addo, ers rhai blynyddoedd, ymweld a chyfaill agos i mi, Cristian Lewis, a'i wraig Esyllt (sy'n wreiddiol o'r Ffôr ger Pwllheli), ond heb gael y cyfle hyd yn hyn.

Ac yn drydydd (ac efallai na ddylwn ei roi yn drydydd o ran trefn chwaith) - roeddwn eisiau gweld bywyd gwyllt y wlad bellennig hon – bywyd gwyllt y darllenais beth o'i hanes yn llyfr Fred Green *'Pethau Patagonia'*, ac a welais ar raglenni teledu dirifedi ers i mi fod yn ddim o beth. Felly, eleni, wedi blynyddoedd o freuddwydio am y peth, o'r diwedd bu i mi fagu digon o blwc (a chynilo digon o arian!) i wneud y daith hir dros fôr yr Iwerydd i Dde America. Roedd y freuddwyd yn siapio ac am gael ei gwireddu.

**Buenos Aires.**
Wedi pedair ar ddeg awr hirfaith yn yr awyr (dwy o Fanceinion i Fadrid, yna deuddeg dros yr Iwerydd) bendigedig oedd glanio ym maes awyr rhyngwladol Buenos Aires, ac anadlu awyr lan enwog y ddinas hynod hon. Rhaid oedd newid maes awyr, ac wedi cael bws i ganol y ddinas, ac yna i faes awyr llai, mewnol, yr Aeroparque - gwyddwn yn syth fy mod am weld rhyfeddodau. Ymysg yr adar cyntaf i mi eu gweld roedd y Benteveo, neu'r (* - *Great kiskadee*) – aderyn melyn llachar a brown, gyda mwgwd du dros ei lygaid. Os oedd adar mor anhygoel a hwn i'w gweld yn y parc cyntaf i mi ei basio, wel, roeddwn am drip a hanner! Peth arall a'm tarodd oedd fod yr awyr yn drwch o loÿnnod byw. A hithau'n ddiwedd Chwefror, byddai hyn yn annisgwyl iawn yng Nghymru – ond rhaid oedd cofio fod y tymhorau yn gwbl groes yr ochr draw i'r cyhydedd, ac felly roedd fel diwedd Awst yn hytrach na diwedd gaeaf!

Wrth aros rhwng awyrennau mewn parc arall gyferbyn a'r maes awyr, yn edrych dros aber frown yr afon Plata (oedd yn drymlwythog o bridd a maetholion y fforestydd glaw), syndod oedd gweld adar y to (y Gorrión) yn dra niferus. Roedd y rhain yn union yr un fath a'r rhai sydd gennyf yn yr ardd adref, gan mai adar a gyflwynwyd yma gan yr ymsefydlwyr cyntaf o Ewrop ydynt ac yn ffynnu yma fel ymhob dinas arall yn y byd!

Ond ysbaid fer gefais yma, gan fod awyren arall yn disgwyl, i'm cludo i faes awyr Trelew.

**Trelew a'r Gaiman.**
Wrth gyrraedd Trelew, roedd y paith yn edrych yn sych a diddiwedd. Dim ond wrth nesu y gellid gweld yr amrywiaeth o blanhigion oedd yn

tyfu yma, a'r lle yn edrych fel un flanced frown o'r awyr.

Roedd Cristian ac Esyllt yn byw mewn bwthyn bychan ar fferm ei rieni ef mewn ardal a elwir y 'drofa dulog', ac yno yr es yn syth o'r maes awyr. (Fferm o'r enw Rhyd y Mwyn, fel mae'n digwydd, yw cartref rhieni Cristian – Orlando ac Arié Lewis - gan mai oddi yno y tarddai un gangen o deulu tad Cristian yn wreiddiol).

Anodd yw disgrifio mor wahanol yw'r 'dyffryn' (yr hyn a elwir yn ran ddwyreiniol dyffryn yr afon Camwy, ardal sy'n cynnwys llecynnau enwog i ni'r Cymry, megis y Gaiman a Thir Halen) i'r tir sy'n ei amgylchynu ar bob ochr. Mewn rhyw ddyffryn cul ond ychydig filltiroedd o led mae'r trefedigaethau, gan mor sych a digyfaddawd yw'r paith ar bob ochr. Roedd ymdrechion gwrol y Cymry cyntaf hynny i adeiladu'r ddwy ffos fawr, a'r amryw ffosydd llai a darddai ohonynt fel gwythiennau bywyd-gynhaliol yn aruthrol, gan fod yna bellach wlad werdd a ffrwythlon ble bu gynt baith sych. Ac roedd y gwyrddni, a'r cyfoeth o gaeau, perllannau, a choetiroedd o bobtu i'r afon Camwy yn nefoedd i adar, a bywyd gwyllt o bob math.



Un aderyn sy'n dra niferus yn yr ardal hon o'r wlad yw'r Tero – cornchwiglen Patagonia – neu'r gornchwiglen ddeheuol. Bron na ellid cysgu gyda'r nos mor swnllyd, ac mor niferus oedd hon! Tybed os yw'r ffaith nad oes yna unrhyw rywogaeth o fran i'w chael yn y rhan hon o dde America yn arwyddocaol yn ffyniant y gornchwiglen hon?




Ond os nad oedd brain yno i fwyta'r celannedd a geir ar hyd y ffyrdd 'ripio' (graean) garw, yna roedd digon o adar eraill oedd yn fy na pharod i gymryd mantais o ddyfodiad y car modur chwim! Yn eu mysg roedd y chimango, math o fwncath bychan â chynffon wen, a math o fwltur – y Jote. Y Jote cabeza colorada (fwltur pen coch – gwelir ei lun ar glawr y rhifyn hwn) oedd y mwyaf cyffredin, er fod sawl math arall i'w gweld yn achlysurol.

Rhyfedd o beth, fel y bu i'r Cymry cyntaf weld debygrwydd rhwng rhai o adar Patagonia â'n hadar ni adre – dyma reswm dros alw math o Ibis lliwgar yn ylfinir, er ei fod yn dipyn mwy o faint na'r math Cymreig.

Peth arall difyr i naturiaethwr o Gymro oedd nifer yr ysgyfarnogod (Ewropeaidd) oedd i'w gweld ymhobman yn y dyffryn wedi iddi nosi – bron nad oeddynt o dan draed (neu o dan deiars!) ymhobman. Aml i


waith bu'n rhaid i Cristian eu hosgoi, a fwy nag unwaith, rhaid cyfaddef, eu bod wedi dod yn agosach i olwynion y pic-yp Ford nag oedd yn dda iddynt! Wedi eu cyflwyno i'r wlad yr oedd y rhain wrth gwrs, ac wedi ffynnu dan heulwen lachar a phorfa odidog y Dyffryn. Rhyfedd o fyd ynde? A'n hysgyfarnog ni mor brin, ei bod wedi gwneud mor dda yn yr Ariannin nes ei bod yn bla, ac yn cael ei ladd mewn niferoedd mawr a'i hallforio yn ôl i Ewrop – o ble y daeth yn wreiddiol – i gael ei choginio mewn gwestai crand ar hyd a lled y cyfandir.

Un lle ardderchog ar gyfer adar a welais ar fy nheithiau oedd llecyn gwlyb o gae ble nad oedd y ffermwr wedi llwyddo i reoli llif y dwr, gymaint nes fod y lle wedi ffurfio llyn bychan. Roedd hwn yn agos at ffordd fechan dawel, ac roedd modd eistedd yn y fan am oriau heb darfu ar yr adar, a'u gwylio yn mynd drwy'r pethau. Rwy'n meddwl mai hwn oedd y llecyn gorau imi fod ynddo o safbwynt y nifer o rywogaethau a welais mewn un lle. Roedd yma wyaich bychain (*maca comun* - white tufted grebe) fflamingos (gwyllt!), elyrch Coscorba, hwyaid llydanbig (pato chuchara – red shoveller), ieir dwr (*gallareta chica* – white-winged coot), a nifer di-ri o ffalaropiaid Wilson (falaropo comun) yn rhydio drwy'r dwr bas. Oedd wir, fel yng Nghymru, roedd llecyn gwlyb o gae yn profi'n boblogaidd i lawer o adar.



Ond ar y fferm y bum yn treulio'r helyw o'm hamser adaryddol – roedd yma fwy na digon o adar i'm cadw'n ddiddig.

Aderyn hynod oedd yr hornero (rufous hornero). Aderyn bychan tua'r un maint a'n haderyn du ni yw hwn, ond fod iddo liw brown, castan, cyfoethog, â gwawr goch. Roedd hwn yn amddiffyn ei 'batsh' yn danbaid iawn yn, ac yn swnllyd ar y naw hefyd. Bu i Mr Lewis ddangos ei nyth o i mi un prynhawn – a dyna beth tlws oedd hwn, rhyw fowlen daclus o laid wedi ei gosod ar gangen, a llwybr i mewn iddo yn arwain ar dro – ymdebygai i ryw gragen malwen anferth ar un o ganghennau coeden gnau.




Yn wir, cefais brynhawn godidog yng nghwmni Mr Lewis, pan aeth a mi o amgylch tiroedd y fferm, gan ddangos i mi'r amrywiaeth eang o adar a geid mewn llecyn cymharol fychan. O fewn un prynhawn credaf i mi weld tua 20 o rywogaethau. Amrywiai'r rhain o'r rhai amlwg, fel yr hornero, i rai llawer mwy swil – fel y pirincho (guira cuckoo). Er i ni glywed dau o'r rhain, a threulio peth amser yn chwilio amdanynt, gan geisio eu hel allan o ddrysni'r prysg a'r coed ffrwythau, dim ond cipolwg

sydyn a gefais o'r aderyn hynod hwn a'i gynffon hir. Roedd cael llun yn amhosib beth bynnag!

Adar eraill tra niferus ar y fferm oedd colomennod bychain, y torcacitas. Roedd y rhain o'r un ffurf a'n colomennod ni, ond eu bod tua'r un maint â'r llinos werdd. Roedd rhain hefyd yn weddol swnllyd!

Tra'n syllu ar y cyferbyniad rhwng y ffos ddeheuol a sychder y paith tua'r de, beth ddaeth i'r golwg ond dau gudyll coch bychan – *Halconcito colorado* – neu'r American Kestrel. Cefais wylio'r rhain am beth amser, ac roeddent hwythau hefyd fel petaent am gael golwg well arnom ninnau!

Roedd yma dylluanod hefyd. O fewn rhai metrau i'r ty yn Rhyd y Mwyn, roedd nythaid o dylluanod gwynion (Lechuze de campanario) yn sgrechian bob gyda'r nos, a phlu gwynion, a phelenni ar y ddaear oddi tanynt yn arwydd sicr mai dyma oedd yn llechu fry yng nghanghennau'r goeden boplys dal. Un noson ar y ffordd yn ôl bum yn ddigon ffodus i weld tylluan fechan (tebyg iawn i'n tylluan fach ni) yn stelcian ar ben rhyw bolyn teliffon, wedi'i hamlinellu yn erbyn awyr borffor y gwyll.



A dyna i chi ddryw bach Patagonia. Roedd hwn yn ddigon tebyg i'n dryw bach ni, ond ei fod fel petai wedi ei ddal wrth ei gynffon a'i big a'i ymestyn, nes fod ei feintioledd yn edrych yn bur chwithig i mi, wedi arfer gyda phwtyn bychan yr hen wlad!

Profiad hynod oedd treulio diwrnod yn canwio i lawr yr afon Camwy, a chael gwedd arall ar fywyd gwyllt y wlad. Ar bob ochr i'r afon roedd coed poplys tal a helyg wylofus oedd fel petaent wedi gwywo. Y rhain oll yn symud yn araf yn y gwynt ysgafn, ac yn rhoi cysgod i bob math o greadur ac aderyn. Ymysg y mwyaf trawiadol roedd yr afanc ofnus, yr hwyaid gwylltion, ac ambell i filidowcar gobeithiol. Bob hyn a hyn byddem yn tarfu ar greyr llechwraidd – byddai hwnnw wedyn yn esgyn gyda chrawc cyn disgyn eto beth pellter i lawr yr afon, dim ond i ni darfu arno eto!

Oedd, yr oedd adar y Gaiman yn werth eu gweld – tybed faint o ymwelwyr eraill o Gymry sy'n cymryd yr amser i edrych tybed, ynteu ydy eu bryd ar gael te a chacennau yn amryw dai te y pentref?! Nid 'mod i am eu beio – fe dreuliais innau fy siâr o amser yn mwynhau te melys, a dwinnau'n sgut am gacennau! Ac â i ddim i ddechrau sôn am yr asados, y milanesas a'r gwin coch – i helpu'r treuliad oedd hwnnw, wrth gwrs!

Do, fe ges i groeso fel brenin gyda'm cyfaill a'i deulu yn y Gaiman. Ond rhag i minnau, fel yr ysgyfarnogod druan, fod o dan draed, hel fy mhac wnes innau, a'i heglu hi tua Phorth Madryn (ble glaniodd y Cymru Cyntaf) a theithio oddi yno draw i Benrhyn Valdes.


**Cewch hanes y rhan honno o'r daith yn y rhifyn nesa o Llygad Barcud!**

## Dau ddiwrnod o fodrwyo

gan Bryan Jones, Llangamarch

**Mae modrwyo yn elfen bwysig iawn yn y byd adarydda. Ond i rai, efallai, mae crefft y modrwywr cymaint o ddirgelwch, a'r byd dirgel hwnnw yn rheng flaen y 'scrym' ar y cae rygbi!!.**

**Wel, dyma gipolwg ar ddau ddiwrnod o fodrwyo brain coesgoch yn haf 2006. Er mwyn osgoi dial dw'i ddim am ddatgelu enw fy nghyd-fodrwywr, ond fedrai feddwl am un neu ddau fydd yn ei adnabod a beth sydd yn dilyn!**



Galwad ffôn nos Iau tua deg o'r gloch, 'Iawn am ddydd Sadwrn? Mae isie gorffen y brain coesgoch. Dere lan erbyn wyth o'r gloch'

'Iawn' meddais.

Mae bore Sadwrn gartre rhwng 6.30 y bore a 8.00 yn sanctaidd gan fod enwogion Cymru yn 'dweud eu dweud'! Ond dyna fe, ffwrdd a mi tua 7.00 a clywed pytiau o 'Galwad Cynnar' fan hyn a fan draw, 'dyw radio na ffôn symudol ddim llawer o werth yn y Canolbarth mewn car.

Cyrraedd y ty yn brydlon, dim affliw o fywyd yno, y llenni ar gau. Cnoc fach ar y drws, dim isie dyhuno'r plant a'r wraig. Dim ymateb, cnoc fach arall, ac o'r diwedd dyma fe'n ymddangos o'r ystafell ffrynt fel ei fod wedi cael ei dynnu trwy'r clawdd. 'Faint o'r gloch yw hi?' medde, 'Dim ond wedi dod gartre am dri o'r gloch. Wedi bod lan y Gogledd yn modrwyo. Llwytha'r car imi tra bo fi'n cael coffi a golchi'

'Hy!' meddyliais, dim byd wedi newid.

Ffwrdd a ni am ardal Aberystwyth, a medru cael y car yn weddol agos at y nyth cynta. Ond ddim cweit!
' Cer ti â rhain, ag âf i y lleill'. Tair rhaff 200 troedfedd am fy ysgwyddau a'r bag modrwyo yn fy llaw. 'Reit lawr a ni fan hyn'. A lawr oedd hi hefyd, am tua 150 troedfedd, yna rhaff ynglwm i'r sbigyn haearn oedd yno'n barod. 'Dyma ti, rho hwn arno, hen harnais Iolo ydi o, fe ddyle fod digon mawr!'

Cloi fy hun ar y rhaff a lawr tua 100 troedfedd arall dros gerrig mân llithrig, a'r unig olygfa oedd y môr islaw. Cyrraedd safle weddol wastad a dodi'r ail raff o amgylch carreg fawr sefydlog. Yna y trydydd rhaff ynghlwm wrth hon ac i lawr ag e i'r nyth.

Dim ond cadw llygad ar y rhaff oeddwn i a mwynhau'r olygfa a'r heulwen. Gyda llaw, dyma'r cynta' o'r tywydd twym iawn gawsom ddechrau Gorffenaf. 'Tri cyw yn y nyth' clywais cyn bo hir, ac yna mewn tua chwarter awr dyma fe a'r cywion yn cyrraedd. Dechrau modrwyo, un fodrwy fetal ar un goes, yna dwy blasting o wahanol liwiau ar y llall. Rydym yn newid lliwiau'r rhai plastig bob blwyddyn fel y medrwn adnabod yr adar yn y dyfodol.

Er mwyn iddynt fod yn gadarn ar y goes ond eto yn rhydd i symud i fyny ac i lawr defnyddir glud sy'n sychu'n gyflym. Roeddem yn pwyso a mesur y cywion hefyd.

Fel mae modrwywyr yn gwybod mae cywion yn hoff iawn o adael eu hôl arnoch, ac mae y frân goesgoch yn un o rhain! Hefyd mae'r rhieni yn crawcian uwch eich pen ar y clogwyni, a hyd yn oed yn dod fel mellten amdanoch ambell chwaith. Maent yn feistri yn yr awyr.

Gorffen y gwaith, nôl â'r cywion i'r nyth, gwneud lan yr offer, a dechrau nôl am y car. Dod i ddiwedd y rhaff, gwneud lan ac yna ail ddechrau dringo. Balch dweud taw fi oedd y cynta i gyrraedd er fy mod yn rhoi ugain mlynedd i'm cyfaill. Digon o stêm yn yr injan o hyd!! 'Roedd digon o chwys arnom i lanw bath, ac yr oeddem wedi bod yn ddoeth iawn i adael y poteli dwr yn y car! Felly dwr hanner twym oedd i'w yfed.

Reit, dwy awr a thri cyw wedi eu gwneud, ffwrdd a ni am y lle nesa. Cyrraedd y parc carafanau, prynu rhagor o ddwr yn y siop, achos erbyn hyn 'roedd yn grasboeth.

'Dim ond yr ysgol fawr tro hyn, dim rhaffau' medde.

'Lle mae'r nyth?' gofynnais, gan nad oeddwn wedi bod yma o'r blaen.

'Ti'n gweld y trwyn yna yn y pellter? Dros hwnna, lawr yr ochr arall, ac yna mlaen tipyn bach eto'.

Ond roedd tua tri chwarter milltir o gerdded ar gerrig crwn llithrig y traeth o'n blaenau cyn hyny, ac ysgol yr un a sach ar ein cefnau. Bois bach, dyna gerdded ac erbyn cyrraedd y trwyn, roeddwn yn chwys drabwd, ac roedd y trwyn 'nawr yn edrych fel Twr Eiffel! Roedd llwybr cul yn mynd syth i fyny am tua 60 troedfedd, lawr yr ochr arall, a dim byd rhyngom a'r môr islaw. Yna, camu, neidio, o un graig i'r llall, llithro ar y gwymon, rhegi, ac ymlaen am hanner milltir arall.. Cyrraedd y nyth a bron yfed potelaid o ddwr ar un llwnc.

Lan a'r ysgol, a lawr a'r cywion a oedd bron yn barod i adael y nyth. Cymerodd y modrwyo, y pwyso a'r mesur dipyn o amser gan fod y cywion mor fywiog.



Erbyn hyn roedd y llanw wedi troi ac ar ei ffordd i mewn, felly gadael yn reit handi. Gorfod mynd yn uwch oherwydd y llanw, ond bob hyn a hyn yn gorfod mynd drwy'r dwr. Aeth drwy fy meddwl bod cwmnîau gweithgareddau awyr

agored yn cael pobol i dalu am wneud rywbeth tebyg, a dyma ni yn ei wneud o wirfodd!! Cyrraedd y traeth o'r diwedd, ac yfed gweddill y dwr, yna troi am y car.

Fy nghyfaill yn sylwi fod rhwyg fawr yn ei drowsus mewn lle amheus iawn, a gwell gwneud rywbeth cyn cyrraedd y maes carafanau. Wn i beth feddyliodd pobol yn y maes wrth weld dau ddyn, un yn plygu lawr a gwneud rywbeth wrth 'copys' y llall! Mae'n syndod beth fedrwch wneud â tipyn o linyn 'beinder' ! Cyrraedd y car dair awr a hanner ar ôl ei adael, bron a llwgu, a sychder ofnadwy. Mynd i'r siop a phrynu dwr, Mars, a hufen iâ – nefoedd!.

'Dyw'r llanw ddim yn siwtio y nyth nesa', meddai 'felly awn am adre a galw yn ardal Nant-yr-Arian a cwblhau y blychod hwyr'. Wel, pymtheg blwch yn ddiweddarach, ar ôl modrwyo cywion titw, gwybedog brith a thingoch 'roedd yn tynnu am 7.00 yr hwyr.

Cychwyn am adre ac yna: 'O ie, ni'n mynd heibio nyth gwalch tramor*. Man a man gwneud y ddau gyw'. Ac felly bu, fo yn mynd uwchben y nyth a dod lawr ar raff, rhoi'r cywion yn y bag, lawr a hwy i mi ar y gwaelod. 'Caria 'malen â'r modrwyo, bydda'i lawr 'nawr.' Ydych chi wedi gweld cyw gwalch tramor? Lwmpyn gwyn mawr o felltith, yn sgyrnygu a gwichian gyda'r crafangau mwya miniog welwch chi!

Dyma fe yn cyrraedd i roi help llaw a dweud: 'Gwell cadw llygaid ar y fam rhag ofn daw lawr amdanynt'. Â bwndel o ffwr gwyn yn gorwedd ar ei gefn yn fy nghôl, yn edrych am siawns i suddo ei grafangau mewn i rhywbeth meddal, rwy'n gwybod ar bwy oeddwn i yn cadw llygaid barcud arno!! O fewn tua hanner awr, roeddem wedi llwyddo i bwyso, mesur a modrwyo y ddau gyw a'u dodi nôl yn y nyth.



Yna am adre a chyrraedd ei dy ef tua 10.00pm. 'Dim ond tair nyth ar ôl am yfory', wrth i mi adael, a: 'Paid a bod yn hwyr fory, mae amser y llanw yn bwysig!'

Bore arall sych a heulog, ac yn edrych fel y byddai'n boeth iawn eto. Wrth gychwyn ar ein taith gofynnais: 'Pam fod cwch rwber yng nghefn y car?'

'Mae ei ishe nes ymlaen heddi', meddai.

'Mm, diddorol iawn', meddyliais.

Y nyth cynta'n rhwydd, gellir mynd ato o fewn 20 llath gyda'r car - y nyth pella o'r arfordir yng Nghymru. Tair step lan yr ysgol i gyrraedd y cywion, tri unwaith eto. Ymlaen i'r ail. Dim ond angen cadw llygaid ar y rhaff tro hyn, tra bo fy nghyfaill yn disgyn lawr i'r nyth. Yna cario mlaen disgyn i'r traeth a cherdded yn ôl lan llwybyr serth, i lle 'roeddwn i â'r offer modrwyo. Pedwar cyw y tro hwn. Yna ailadrodd y broses i ddychwelyd y cywion – yn ôl lawr y rhaff, i'r traeth a lan y llwybyr unwaith eto cyn mynd am y car tua hanner milltir i ffwrdd. Bron dwy awr wedi mynd erbyn hyn.

'Reit, bant a ni am y nyth diwetha' y flwyddyn hon. Gyda llaw, 'wyt ti'n medru nofio?' gofynnodd.

'Ydw', atebais yn araf bach. 'Pam?'

'Cei di weld yn y man'. Cyrraedd fferm, a chael gair gyda'r perchennog, yna gyrru drwy dri cae i ben y creigiau ar ochr y môr. 'Reit, ma ishe yr ysgol fawr, rhaff, spigyn, a'r bâd. Gwell pwmpio honno i fyny yma.'

Dyma chwysad cyn dechre', yn pwmpio o dan haul crasboeth. Yna cario popeth tua 400 llath i ben y clogwyn. Roedd ishe bwrw y sbigyn mewn i'r ddaear, clymu rhaff iddo, a'r pen arall i'r ysgol a gollwng honno i lawr y clogwyn i'r dwr. Doedd dim llawer o syniad gen i beth oedd o'm blaen, ond dw'i wedi bod yn cynorthwyo fy nghyfaill ers llawer blwyddyn bellach, ac, fel y canodd Dafydd Iwan, 'Rwy yma o hyd'!!

Wedyn cario y cwch lawr y creigiau serth i'r môr lle 'roedd hollt fawr yn y graig. Yno roedd y môr yn mynd mewn i ogof ac 'roedd y nyth i mewn yno yn y nenfwd. Bu raid sefyll tua hanner awr cyn i'r llanw fynd lawr ddigon. Yna, i'r cwch a rhwyfo i mewn, ond hanner ffordd roedd raid rhyddhau'r ysgol o'r rhaff a'i rhoi yn y cwch. Nid y peth hawdda' – dau ddyn, ysgol dwbwl 20 troedfedd mewn cwch 6 troedfedd, ac ar ben hynny sylwi bod tua ddwsin o slefrod môr yn nofio o dan y cwch!

Ond fe lwyddom, o'r diwedd, fynd mewn i'r ogof, er bod cymaint o ddwr yn y cwch ac oedd yn y môr. Y broblem nesa' oedd cael yr ysgol i sefyll ar y cerrig gwlyb a llithrig gan nad oedd yn cyrraedd y nyth. Bu raid ei chlymu i'r cerrig mawr er mwyn sefydlogrwydd. Araf bach bu'n dringo'r ysgol, ond fe gafwyd y tri cyw.

Nid y lle delfrydol i bwyso, mesur a modrwyo ac, wrth gwrs, fe benderfynodd un o'r cywion ei heglu hi allan o'r cwdyn a mynd o dan un o'r cerrig mawr. Dydy gorwedd ar fy hyd ar wymon gwlyb a'm braich mewn twll, yn trio gafael mewn cyw oedd dim ishe dod allan, ddim yn un o'm hoff brofiadau! Erbyn hyn roeddwn yn wlyb hyd y croen, ac oedd mynd nôl yn y cwch eto i ddod.

'Beth am fynd a'r ysgol nôl at y rhaff a'i chlymu, yna dere nôl amdana i' meddais. A jiwcs fe wnaeth hynny, er erbyn hyn roedd awel wedi codi, ac 'roedd yn tipyn caletach rhwyfo i'r lan a glanio. Ond cyrraedd tir sych o'r diwedd. Roedd tynnu y cwch lan y creigiau yn tipyn o chwysad ond roedd gwaeth i ddod. Hynny oedd tynnu yr ysgol allan o'r dwr a lan y clogwyn serth. Ac wrth gwrs roedd trwyn yr ysgol yn dal ym mhob peth ar ei ffordd fyny.
Yr offer nôl ger y car, a'r ddau ohonom yn gorwedd ar y gwair yn hollol ddi-nerth, ond fu gwres yr haul ddim yn hir yn sychu'n dillad.

'Wel dyna ni wedi gorffen rhain am eleni' meddai. 'Bydd rhaid meddwl am y tylluanod gwyn cyn hir, a beth am y ddwy Eglwys yna lle mae'r wennoliaid du?'

'Dim siawns am dri, pedwar diwrnod gwd boi', meddyliais, hyd bydd y corff yma wedi cael hoi fach.

Wrth orwedd ar y glaswellt dyma'r ddau rhiant yn codi ar y gwynt, ac nid oes aderyn delach na mwy meistrolgar na'r frân goesgoch ar arfordir Cymru, ac wrth eu gweld, dyma feddwl bod holl waith y diwrnodiau diwetha' wedi bod yn werth pob munud.

Ydy, mae modrwyo yn waith gwerthfawr iawn am ei fod yn ehangu cymaint ar ein gwybodaeth am adar ac yn ein helpu, yn y pendraw i'w gwarchod yn llawer mwy effeithiol. Byddai y byd adarydda yn llawer, llawer tlotach heb y grefft.

[* Hebog tramor yw'r enw safonol ar y 'gwalch tramor']

# Gweithgareddau Cymdeithas Ted Breeze Jones

Dydd Sadwrn 12fed Mai 2007
**Arolwg o adar Brondanw, Llanfrothen**
Bwriad yr arolwg yw cael amcan o'r mathau a'r niferoedd o adar sy'n magu neu yn defnyddio tiroedd Plas Brondanw. Gwneir hyn drwy gerdded rhai o lwybrau'r ardal a mapio yn fanwl ymhle y gwelwyd unrhyw adar, a'u niferoedd, gan ddefnyddio system gofnodi debyg i'r un a ddefnyddir yng nghynllun BBS ('Breeding Bird Survey') y BTO. Byddwn yn dilyn yr un drefn ag a wnaethom ym Mhortmeirion y llynedd. Cyfarfod yn y maes parcio gwaelod (agosaf at ffordd A4085) am 10.30 y.b.
Mae croeso i bawb ymuno â ni i gymryd rhan yn y gwaith diddorol a phwysig hwn. Bydd yn gyfle i'r rhai ohonoch weld sut mae cyfrifon 'gwyddonol' o'r fath yn digwydd – dan arweiniad adarwyr mwy profiadol – a chewch weld fod arolygu fel hyn yn hwyl yn ogystal a bod yn ddefnyddiol!

Dydd Sadwrn 12fed/Dydd Sul 13eg Mai 2007
**Ffair Lyfrau'r RSPB**
Gwarchodfa'r RSPB, Conwy

Dydd Sadwrn 26ain Mai 2007
**Taith yn Nant Gwrtheyrn** (dan arweiniad Twm Elias)
Fel rhan o ddathliad 50 mlynedd Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Pen Llŷn
Cyfarfod yn y maes parcio uchaf am 10.30 y.b.

Nosweithiau Iau a Sadwrn ym mis Mehefin
**Teithiau i weld y Troellwr Mawr.**
Bydd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (NWWT) yn arwain teithiau i weld yr aderyn hwn yng Nghors Bodgynydd (Nos Iau) a Gwaith Powdwr Penrhyndeudraeth (Nos Sadwrn).
Ffoniwch (01248) 351 541 am fwy o wybodaeth.


**Plas Tan y Bwlch**

*Canolfan Astudio Parc Cenedlaethol Eryri*

Pob llwyddiant i

**Gymdeithas Ted Breeze Jones**

ac i

**LLYGAD BARCUD**

Holwch am raglen o'r cyrsiau byd natur yr ydym yn eu cynnig,
neu am ein darpariaeth i grwpiau / cymdeithasau ymweld gyda'r nos am bryd bwyd,
a thro rownd y gerddi

Am ragor o wybodaeth a rhaglen lawn ffoniwch: 01766 772600